**Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif.1**
**Legislation Committee No.1**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

27 Tachwedd 2009

Annwyl gydweithiwr

**Ymgynghoriad ar Fesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau)**

Fel rhan o'i ystyriaeth Cyfnod 1, mae Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Pwyllgor') yn galw am dystiolaeth mewn perthynas ag egwyddorion cyffredinol Mesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) ('y Mesur arfaethedig').

**Beth yw Mesur?**

Darn o ddeddfwriaeth a wneir gan y Cynulliad yw Mesur. Mae iddo effaith debyg i Ddeddf Seneddol. Gall y Cynulliad basio Mesurau ar unrhyw 'fater' a restrir yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r Mesur Arfaethedig yn defnyddio Mater 13.3 mewn perthynas â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Tra bod Mesur yn mynd drwy'r Cynulliad, caiff ei alw'n 'Fesur arfaethedig'.

Mae pedwar cyfnod yn y broses ar gyfer ystyried Mesur arfaethedig. Yn ystod Cyfnod 1, mae'r pwyllgor yn ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig (gan gymryd tystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar gan bartïon sydd â diddordeb a rhanddeiliaid) ac mae'r Cynulliad yn cytuno ar yr egwyddorion cyffredinol hynny.

**Sut y cododd y Mesur Arfaethedig?**

Ym mis Awst 2008, sefydlodd Comisiwn y Cynulliad ('y Comisiwn') y Panel Adolygu Annibynnol ('y Panel') i edrych ar bob agwedd ar gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad. Cyhoeddwyd adroddiad y Panel, *Yn Gywir i Gymru* ac fe'i cyflwynwyd i'r Comisiwn ym mis Gorffennaf 2009. Derbyniwyd holl argymhellion y Panel (23 prif argymhelliad ac 85 argymhelliad cefnogol) gan y Comisiwn. Un o brif argymhellion adroddiad y Panel oedd y dylai'r Comisiwn baratoi a chyflwyno Mesur Cynulliad cyn gynted ag sy'n ymarferol, i sefydlu Corff Adolygu Annibynnol statudol i wneud penderfyniadau mewn perthynas â phob agwedd ar gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad.

**Beth mae'r Mesur arfaethedig hwn am ei gyflawni?**

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n gysylltiedig â'r Mesur arfaethedig yn datgan mai:

> *'Diben y Mesur Arfaethedig, felly, yw sefydlu Bwrdd Taliadau annibynnol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Bwrdd"), trosglwyddo i'r Bwrdd swyddogaethau penderfynu ar daliadau Aelodau'r Cynulliad, Prif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol a Dirprwy Weinidogion Cymru, a dibenion sy'n gysylltiedig â hynny. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys pennu ac adolygu cyflogau Aelodau'r Cynulliad, eu lwfansau a'u pensiynau. Byddai hyn yn mynd â'r cyfrifoldeb dros y swyddogaethau hyn oddi ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, sef swyddogaethau sydd wedi'u rhoi ar hyn o bryd i Gomisiwn y Cynulliad.'*

Mae'n mynd ymlaen i egluro mai nod y Mesur arfaethedig yw sefydlu *''proses agored a thryloyw''* ar gyfer pennu cyflogau aelodau a fydd yn *''meithrin ffydd y cyhoedd".*

**Beth yw swyddogaeth y pwyllgor?**

Swyddogaeth Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1yw ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a chyflwyno adroddiad arnynt.

**Sut y gallwch chi helpu – cwestiynau'r ymgynghoriad**

Ceir manylion pellach am y Mesur arfaethedig a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol yn:

http://www.cynulliadcymru.org/ms-ld7745-e.pdf

http://www.cynulliadcymru.org/ms-ld7745-em-e.pdf

Er mwyn llywio gwaith y Pwyllgor, byddai'n croesawu tystiolaeth ysgrifenedig ar y Mesur arfaethedig gan bartïon sydd â diddordeb. **Yn benodol, hoffai sylwadau ar yr hyn a ganlyn:**

1. **A oes angen Bwrdd Taliadau annibynnol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru?**

2. **A ydych yn credu y bydd y darpariaethau allweddol o fewn y Mesur arfaethedig yn helpu i gyflawni'r nod o ddarparu proses agored a thryloyw ar gyfer pennu cyflogau Aelodau'r Cynulliad, a fydd yn meithrin ffydd y cyhoedd?**

   **Wrth ystyried y cwestiwn hwn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi sylwadau ar y canlynol:**

   - **Swyddogaethau Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Bwrdd') (adran 2);**
   - **personau sy'n anghymwys i fod yn aelodau o'r Bwrdd (adran 3, Atodlen 1);**
   - **trefniadau ar gyfer penodi aelodau o'r Bwrdd a therfynu'u haelodaeth (adran 4, Atodlen 2 ac adran 5);**
   - **darpariaethau mewn perthynas ag ymarfer swyddogaethau'r Bwrdd (adrannau 10 – 12).**

3. **Beth yw goblygiadau ymarferol y Mesur arfaethedig, yn benodol a ydych yn credu bod unrhyw rwystrau posibl i roi'r darpariaethau sy'n cael eu cynnwys yn y Mesur arfaethedig ar waith?**

4. **Beth yw goblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig?**

**Os hoffech wneud unrhyw sylw arall ar y Mesur arfaethedig na gynhwyswyd yn eich atebion i'r cwestiynau uchod, mae croeso i chi wneud hynny.**

Os hoffech anfon tystiolaeth, anfonwch gopi electronig o'ch cyflwyniad at legislationoffice@cymru.gsi.gov.,uk gan ddefnyddio'r teitl *Ymgynghoriad – Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau)*. Os byddai'n well gennych anfon copi caled o'ch cyflwyniad, anfonwch ef at Claire Griffiths, Dirprwy Glerc y Pwyllgor, y Swyddfa Ddeddfwriaeth, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA.

**Dylai eich cyflwyniadau gyrraedd y Cynulliad erbyn dydd Gwener 8 Ionawr 2010. Efallai na fydd yn bosibl ystyried ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.**

Mae gwybodaeth bellach ar y **broses ddeddfwriaethol** i'w chael yn: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-guidance/bus-legislation-guidance-measures.htm

Wrth baratoi eich cyflwyniad, gofynnir i chi ystyried y canlynol:

- dylai eich ymateb fod yn gryno a dylai ymdrin â'r materion sydd gerbron y Pwyllgor. Defnyddiwch y pennawd uchod fel cyfeirnod i'ch ymateb;
- fel arfer, bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn trefnu bod ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus ar gael i'r cyhoedd fedru craffu arnynt, ac efallai y cânt eu gweld a'u trafod hefyd gan Aelodau'r Cynulliad mewn cyfarfodydd Pwyllgor. **Os nad ydych yn dymuno cael eich ymateb a'ch enw wedi'u cyhoeddi, mae'n bwysig eich bod yn nodi hynny'n glir yn eich cyflwyniad;**
- gofynnir i chi nodi a ydych yn ymateb ar ran sefydliad neu fel unigolyn; a
- gofynnir i chi nodi a fyddech yn barod i roi tystiolaeth ar lafar i'r Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg a bydd yn trafod yr ymatebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig ar ddiwedd tymor yr haf a dechrau tymor yr hydref.

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Liz Wilkinson, Clerc y Pwyllgor, ar 029 2089 8025 neu Claire Griffiths, y Dirprwy Glerc, ar 029 2082 1990.

Yr eiddoch yn gywir

**Rosemary Butler AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor**